



Senario - Taclo'r taniwr

Darllenwch y stori hyd yn hyn...

Dychmygwch y senario hwn - mae tân yn llosgi am ddau ddiwrnod a dwy noson. Mae eisoes wedi llosgi drwy ardal natur leol ac mae'n lledaenu'n gyflym tuag at ardal breswyl yn y gymuned leol.

Mae'r Gwasanaethau Tân ac Achub wedi cael eu galw ac maent yn yr ardal yn ceisio rheoli'r tân a'i ddiffodd. Mae diffoddwr tân wedi cael llosgiadau wrth wneud ei waith. Mae parafeddygon ac ambiwlans ar y safle, yn delio â'r anaf hwn ac yn paratoi ar gyfer unrhyw faterion pellach.

Mae'r heddlu hefyd ar y safle i helpu i ddargyfeirio traffig o'r ardaloedd sydd wedi'u heffeithio gan y tân, ar ôl cau ffyrdd yn y cyffiniau.

Mae gwirfoddolwyr o'r gymuned yn helpu drwy ddarparu lluniaeth a manau gorffwys ar gyfer y gwasanaethau brys yn y ganolfan gymunedol leol, sydd ddigon pell oddi wrth y tân.

Mae'r cyngor lleol wedi cyngori trigolion i gadw eu ffenestri ar gau er mwyn lleihau'r risg y byddant yn anadlu mwg o'r tân a allai achosi problemau iechyd. Maent hefyd yn llunio cynllun argyfwng rhag ofn y bydd angen symud pobl o'r ardal gyfagos. Maent wedi clustnodi canolfan hamdden mewn tref gyfagos i ofalu am y rhai sydd wedi gorfod gadael yr ardal.

Mae'r trigolion yn ofnus ac yn ddig eu bod nhw a'u heiddo wedi cael eu rhoi mewn perygl. Mae rhai cartrefi a busnesau yn yr ardal yn defnyddio bagiau tywod i geisio amddiffyn eu tai, siopau a swyddfeydd rhag y perygl o lifogydd posibl gan ddŵr ffo a ddefnyddir i ddiffodd y tân. Mae nifer o fusnesau lleol wedi gorfod cau er diogelwch. Mae pobl yn teimlo'n ddig, ac eisiau gwybod pwy sy'n gyfrifol.

Mae ardal natur leol boblogaidd wedi cael ei llosgi, gan golli llawer o goed a phlanhigion. Mae'r ysgol leol yn defnyddio'r ardal ar gyfer gweithgareddau dysgu yn yr awyr agored a gwella iechyd

ac nid oes unrhyw le arall i'w ddefnyddio. Bydd y gymuned yn teimlo colli ardal a fwynhawyd fel safle chwarae a hamdden, gan helpu i wella iechyd a lles lleol.

Mae bywyd gwylt lleol yn cael ei effeithio. Mae llawer o anifeiliaid, gan gynnwys adar, pathewod, moch daear, gwiwerod, cwingod a llwynogod mewn perygl o gael eu hanafu neu hyd yn oed eu lladd ac yn cael eu herlid o'u cartrefi a'u cynefinoedd gan y tân.

Mae'r math hwn o dân yn digwydd dro ar ôl tro yn yr ardal, bob gwanwyn. Mae'r boblogaeth leol yn mynd yn fwyfwy rhwystredig nad yw'r awdurdodau a sefydliadau cysylltiedig wedi dod o hyd i ffordd i'w atal. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn yr ardal yn tybio mai ymddygiad gwrthgymdeithasol gan blant lleol neu bobl ifanc yn eu harddegau sydd ar fai. Mae llawer o bobl yn beio'r rhieni a gallant fod yn amheus iawn o grwpiau o blant neu bobl ifanc sy'n ymgynnull yn yr ardal.

